Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Dyddiad: Gorffennaf 2025

# Cynnwys


**Casgliadau ac argymhellion ..... 3**

Casgliadau ..... 3

Argymhellion ..... 3

**1. Y cefndir ..... 5**

**2. Memorandwm Rhif 3 ..... 7**

Trosolwg ..... 7

Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer ..... 7

Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cydsyniad ..... 8

Tystiolaeth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ..... 8

Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer ..... 10

Ymgysylltu ar y Bil ..... 12

Goblygiadau ariannol a chostau ..... 13

Monitro a gwerthuso ..... 16

Ein barn ni ..... 16

Defnyddio Bil y DU ar gyfer y polisi hwn ..... 17

Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer ..... 18

Goblygiadau ariannol a chostau ..... 19

Ymgysylltu ..... 20

Y posibilrwydd y gallai fod gwahaniaethau o ran polisi ..... 20

Casgliad ..... 21

# Casgliadau ac argymhellion

## Casgliadau

**Casgliad 1.** Nid yw mwyafrif o'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Senedd gefnogi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 ar y Bil Hawliau Cyflogaeth....................20

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol nodi pam y mae o'r farn ei bod yn briodol sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru drwy reoliadau. .................... 18

**Argymhelliad 2.** Dylid dileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol cyn arfer eu pwerau gwneud rheoliadau o dan gymal newydd 36 o'r Bil, a dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl opsiynau sydd ar gael iddi i sicrhau bod hyn yn digwydd, gan gynnwys parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i'w ddileu.................... 19

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau o ran ei chais am 'eithriad i Atodlen 7B' sy'n ymwneud â'r gofyniad i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau o dan gymal newydd 36.................... 19

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu atom i nodi'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth y DU dros gadw'r gofyniad i Weinidogion Cymru gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer eu pwerau gwneud rheoliadau o dan gymal newydd 36. .................... 19

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu atom bob chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynt y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y cyllid a fydd ar gael i weithredu'r darpariaethau yn y Bil a drafodir ym Memorandwm Rhif 3.................... 20

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu atom o fewn 6 mis i nodi'r prosesau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth greu'r gweithgorau ar gyfer sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol i Gymru, ac amserlen ar gyfer y gwaith hwn. .................... 20

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol roi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am drafodaethau Gweithgor Prydain Fawr ynghylch sefydlu cyrff negodi gofal cymdeithasol yn y tair gwlad, ac unrhyw gytundebau sy'n deillio o'r trafodaethau hynny. 20

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2024. Cwblhaodd ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 14 Mawrth 2025.

**2.** Ar 5 Rhagfyr 2024, gosododd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm")[1] mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd. Yna, gosododd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("Memorandwm Rhif 2")[2] ar 19 Rhagfyr 2024. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad;[3] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig;[4] a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol[5] eisoes wedi cyhoeddi adroddiadau mewn perthynas â'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

**3.** Gosododd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall ("Memorandwm Rhif 3")[6] ar 1 Ebrill 2025. Gan fod pwnc trafod Memorandwm Rhif 3 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cafodd ei gyfeirio atom gan y Pwyllgor Busnes, a'r dyddiad cau cychwynnol i gyflwyno adroddiad arno oedd 27 Mehefin 2025. Estynnwyd y dyddiad hwnnw wedi hynny i 11 Gorffennaf 2025.

**4.** Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Rhif 3 yn ei gyfarfod ar 5 Mehefin 2025.[7] Yn ystod y cyfarfod hwnnw, clywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, sef y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am ofal cymdeithasol yng Nghymru.

**5.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar 8 Gorffennaf 2025, cyn y ddadl sydd wedi'i threfnu ar y memorandwm hwnnw ar 15

[1] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Hawliau Cyflogaeth
[2] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Hawliau Cyflogaeth
[3] Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Mawrth 2025
[4] Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Mawrth 2025
[5] Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Mawrth 2025
[6] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3): Y Bil Hawliau Cyflogaeth
[7] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025

Gorffennaf 2025. Yn yr amser prin rhwng gosod Memorandwm Rhif 4 a dyddiad y ddadl, nid yw'r Pwyllgor wedi gallu trafod y memorandwm hwnnw.

**6.** Rydym am fynegi ein rhwystredigaeth ag amseriad Memorandwm Rhif 4. Mae Memorandwm Rhif 4 yn cynnwys materion sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Pwyllgor hwn ac eto, oherwydd yr amseru, nid ydym wedi gallu craffu arno. Mae'r sefyllfa hon yn gwbl anfoddhaol a gellid bod wedi ei hosgoi, pe bai Llywodraeth Cymru wedi dewis dull gweithredu gwahanol i gyflawni'r maes polisi arwyddocaol hwn, fel y trafodwn yn yr adran 'Ein barn ni' yn yr adroddiad hwn.

# 2. Memorandwm Rhif 3

## Trosolwg

**7.** Mae paragraffau 6 i 12 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi. Yn fras, mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â:

- diweddaru a gwella hawliau cyflogaeth presennol a gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau newydd;
- gwneud darpariaeth ar gyfer cyrff negodi mewn sectorau penodol;
- diwygio agweddau penodol ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag undebau llafur a chysylltiadau diwydiannol; a
- chreu mecanweithiau newydd ar gyfer gorfodi cyfraith cyflogaeth.[8]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**8.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau i'r Bil a dderbyniwyd yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau hyn, sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, bellach wedi'u cynnwys ym Mhennod 2 o Ran 3 o'r Bil, sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol.

**9.** Y gwelliant o sylwedd yw gwelliant NC37, sy'n mewnosod cymal newydd 36 yn y Bil. Mae cymal 36 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel y nodir yn Memorandwm Rhif 3, diben y Corff hwn yw "datblygu a chytuno ar Gytundebau Cyflog Teg mewn gofal cymdeithasol a fyddai'n llywio telerau ac amodau gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol."[9] Gwneir darpariaeth debyg mewn perthynas â Lloegr a'r Alban.

**10.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn dweud yn glir y bydd y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru:

> *"yn gallu delio â thâl, telerau ac amodau ac unrhyw fater penodol arall sy'n ymwneud â chyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion a phlant."*

[8] Memorandwm Rhif 3, paragraff 8
[9] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 13-14

**11.** Mae hyn, meddai, yn wahanol i'r dull gweithredu yn Lloegr i greu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer Lloegr, a bwriedir iddo ystyried y ffaith, "yn wahanol i Loegr, bod gofal cymdeithasol oedolion a phlant wedi'u hintegreiddio'n sefydliadol yng Nghymru".[10]

**12.** Ni chaniateir arfer y pŵer yng nghymal newydd 36 i sefydlu'r corff newydd heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

**13.** Mae gweddill y gwelliannau'n addasu cymalau presennol a oedd, yn wreiddiol, yn llywodraethu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer Lloegr fel eu bod bellach yn berthnasol mewn perthynas â chyrff newydd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

**14.** Rhoddir rhagor o fanylion am y gwelliannau a restrir uchod ym mharagraff 16 o Femorandwm Rhif 3.

### Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cydsyniad

**15.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau sy'n ymwneud â Chorff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

## Tystiolaeth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

**16.** Dywed Memorandwm Rhif 3 fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil a'r "cynllun 'Plan to Make Work Pay' ehangach". Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â Chorff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru yn ei galluogi i:

> *"ddefnyddio'r fframwaith a ddarperir gan y Bil Hawliau Cyflogaeth mewn modd sy'n cyd-fynd â'n hagenda polisi gofal cymdeithasol, ein model comisiynu a'n trefniadau cyllido."*

**17.** Yn ystod ein sesiwn tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, gwnaethom ofyn iddi pam yr oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi defnyddio Bil y DU i wneud darpariaeth ar gyfer corff negodi gofal cymdeithasol, yn hytrach na chyflwyno ei Bil ei hun.

**18.** Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymdrechu i hybu gwaith teg yn y gweithlu gofal cymdeithasol ers blynyddoedd lawer ond nad oes

[10] Memorandwm Rhif 3, paragraff 15

ganddi'r ysgogiadau deddfwriaethol i orfodi unrhyw gytundebau o'r fath, gan nad yw cyfraith cyflogaeth wedi'i datganoli. Dywedodd, o ran Llywodraeth Cymru:

> *"(…) by being part of this legislation, that enables us to continue to do the work that we're doing here in Wales on the social care workforce in the devolved setting, but have the security of employment legislation that is underpinned by enforcement action."*[11]

**19.** Dywedodd wrthym fod cryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth lwyr a bod Llywodraeth Cymru yn gweld y Bil hwn fel cyfrwng a fydd yn ei galluogi i wneud hynny.[12]

**20.** Dadleuodd y Gweinidog, er y gallai Llywodraeth Cymru sefydlu cytundebau cyflog teg ar hyn o bryd, na fyddai modd eu gorfodi'n gyfreithiol. Cyfeiriodd at enghraifft y cyflog byw gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru, sydd wedi bod ar waith dros y tair blynedd diwethaf. Dywedodd mai cytundeb gwirfoddol yw hwnnw, ac nad oes modd ei orfodi yn yr un modd â'r isafswm cyflog cenedlaethol. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… if we get to a point where we have a legally enforceable condition, as it would be under the fair pay agreement, underpinned with a competence that we don't currently have, because it's a reserved matter, we think that that is a huge benefit to the social care workforce."*[13]

**21.** Dadleuodd y Gweinidog hefyd fod angen bod yn bragmatig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni, yn enwedig yn yr amser sy'n weddill o dymor y Senedd hon. Dywedodd hefyd, gan fod y Bil yn ymwneud yn bennaf â materion sydd wedi'u cadw'n ôl o ran cyfraith cyflogaeth, fod Llywodraeth Cymru o'r farn mai dyma'r dull mwyaf cydlynol o ymdrin â'r hyn y mae'n ceisio'i wneud yn y maes hwn, a hynny ar sail hawliau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol.[14] Yn marn y Gweinidog, byddai'r dull hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud darpariaeth yn y maes hwn yn gyflym, mewn ffordd a fyddai wedi'i chydweddu a'i chydgysylltu ledled y DU.[15]

---

[11] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 330
[12] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 404
[13] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 345
[14] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 332
[15] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 332

**22.** Fodd bynnag, cydnabu fod dull gweithredu'r Bil yn golygu y gallai fod gwahaniaethau rhwng cytundebau'r tair gwlad, ac mai man cychwyn Llywodraeth Cymru oedd cael corff negodi ar gyfer y DU. Dywedodd nad oedd Llywodraeth y DU wedi cefnogi'r safbwynt hwn, gan nad oedd am ymwneud â meysydd polisi datganoledig, ac, yn hytrach, fod 'gweithgor Prydain Fawr' wedi'i sefydlu, gyda chynrychiolwyr o Gymru, yr Alban a Lloegr. O ran y grŵp hwnnw, dywedodd:

> *"(…) we have representatives … talking through how we can ensure that we don't have those divergences that we don't want to see and that wouldn't be beneficial in either Scotland, Wales or England either (….) So, that work will be ongoing to, hopefully, prevent those unintended consequences."*[16]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**23.** Mae gwelliant NC37, a oedd yn mewnosod cymal newydd 36 yn y Bil, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Mae'n werth nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth arfer y pŵer hwn, gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

**24.** Yn Memorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn nodi fod y gofyniad i gael cydsyniad yn ddiangen yn ei farn ef, a'i fod wedi rhoi gwybod i Lywodraeth y DU am y safbwynt hwnnw.[17] Mae'n mynd ymlaen i nodi:

> *"Serch hynny, mae cydnabod yr heriau sylweddol y mae'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu o ran cyflog teg, sydd yn ei dro yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n pobl fwyaf agored i niwed, alinio pwerau gorfodi a galluogi dull cydgysylltiedig o ddatblygu cyrff negodi gofal cymdeithasol a Chytundebau Cyflog Teg yn y sector hwn yn hanfodol.*
>
> *Mewn cydnabyddiaeth o'r ffactorau hyn, yn ogystal â galluogi'r darpariaethau hyn i gael eu gweithredu cyn gynted â phosibl, mae'n briodol, yn fy marn i, i ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU. Mae'r Bil yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar waith teg. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."* [18]

[16] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 396
[17] Memorandwm Rhif 3, paragraff 20
[18] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 20

**25.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, gwnaethom ei herio ynghylch a oedd cymal newydd 36 yn tanseilio'r setliad datganoli drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael cydsyniad gan Lywodraeth y DU cyn gallu arfer pwerau yn y maes hwn.

**26.** Ailadroddodd y Gweinidog safbwynt Llywodraeth Cymru, sef nad yw o'r farn bod angen y gofyniad am gydsyniad. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyfleu, a'i bod yn parhau i gyfleu, y pwynt hwn i Lywodraeth y DU ond nad yw, hyd yma, wedi llwyddo i ddarbwyllo Llywodraeth y DU.

**27.** Dywedodd wrthym mai'r ystyriaeth bennaf iddi yw na ddylai gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru fod o dan anfantais drwy beidio â bod yn rhan o'r ddeddfwriaeth hon.[19] O'r herwydd:

> *"(…) I had to make a decision, in the end, along with my colleagues the Minister for Culture, Skills and Social Partnership, and the Counsel General, about what the greater benefit to the social care workforce would be."*[20]

> *"I think you have to come to a position, at some point, about what is the greater good, and we believe that the greater good is to involve the social care workforce in Wales as part of this legislation so that we have legally enforceable rights in Wales. We don't believe it would be right to have those legally enforceable rights in Scotland and England and not have them in Wales."*[21]

**28.** Dywedodd Stephen Layne, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwaith Teg Llywodraeth Cymru, wrthym fod y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y Bil i ofyn am eithriad i Atodlen 7B, a fyddai, i bod pwrpas, yn galluogi'r Senedd i ddileu'r gofyniad am gydsyniad yn nes ymlaen. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn aros am ymateb.[22]

**29.** Cadarnhaodd y Gweinidog mai mater i Senedd yn y dyfodol fyddai unrhyw eithriad y gellid ei sicrhau. Dywedodd:

---

[19] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 340
[20] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 338
[21] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 349
[22] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 356

> *"It is not something that we could do in this term of the Senedd to develop our own legislation. We just would not have the time. But a future Government may decide to develop legislation in this area, and then there would be the option of a carve-out if we can get agreement on that."*[23]

**30.** Ar wahân i hynny, mae cymal 151 o'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaethau canlyniadol mewn perthynas â'r Bil. Mae hyn yn cynnwys pŵer Harri'r Wythfed sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf neu Fesur gan y Senedd.

**31.** Nid oes unrhyw sôn am y ddarpariaeth hon yn Memorandwm Rhif 3 nac yn y memoranda blaenorol ar gyfer y Bil hwn, ac o'r herwydd nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar gydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon yn glir. Mae'r Nodiadau Esboniadol diweddaraf i'r Bil yn nodi nad yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer adran 151.

### Ymgysylltu ar y Bil

**32.** Dywed Memorandwm Rhif 3:

> *"Cyn cyflwyno'r Bil ac wedi hynny, bu trafod rheolaidd ac adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion."*[24]

**33.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, gwnaethom ofyn iddi pa ymgysylltu a fu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector gofal cymdeithasol a'r undebau llafur ar y cynigion yn y Bil. Cyfeiriodd at y trefniadau partneriaeth gymdeithasol hirsefydlog gydag undebau llafur a chynrychiolwyr cyflogwyr, gan gynnwys y fforwm gwaith teg gofal cymdeithasol a phartneriaeth y gweithlu gofal cymdeithasol. Dywedodd:

> *"That vehicle has enabled us to have regular updates with our stakeholders on progress, and the positive feedback that we've had from them has been one of the main factors in why we've decided to take the route that we have in terms of presenting this as an LCM, and seeking to be included in the legislation. It was very much the view of our stakeholders and our trade unions that we should do that. So, we have had very detailed*

[23] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 361
[24] Memorandwm Rhif 3, paragraff 10

> *conversations—as detailed as they can be, given the amount of information that we have got at this stage."*[25]

**34.** Gwnaethom hefyd holi am y cynlluniau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol, ac a oedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor gyda chynrychiolwyr o'r sector ac undebau llafur i ddatblygu'r polisïau ar gyfer proses y Cytundebau Cyflog Teg, yn debyg i'r grŵp sydd eisoes wedi'i sefydlu yn Lloegr.

**35.** Dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gynnydd ffurfiol wedi'i wneud o ran sefydlu corff negodi na gweithgorau yng Nghymru oherwydd bod Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r broses gywir yw cael cytundeb y Senedd yn gyntaf. Dadleuodd, er bod gwaith o'r fath eisoes ar y gweill yn Lloegr:

> *"They don't have any kind of mechanisms in place at all in England for anything like the kind of partnership arrangements that we have in Wales, so we are in a better place."*[26]

**36.** Dywedodd wrthym, ar ôl cael cytundeb y Senedd, y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

> *"(…) we will then be looking, through our existing partnership arrangements, as to how we can develop a negotiating body and any working groups that we will need to test out all of the things that are contained within the legislation and how we can best implement that here."*[27]

**37.** O ran amserlen ar gyfer y gwaith hwn, cadarnhaodd nad oes ganddynt amserlen eto.[28]

## Goblygiadau ariannol a chostau

**38.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol, ond y bydd Llywodraeth Cymru yn:

> *"ystyried goblygiadau ariannol sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru cyn ceisio defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i sefydlu corff o'r fath."*[29]

---

[25] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 364
[26] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 366
[27] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 366
[28] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 367
[29] Memorandwm Rhif 3, paragraff 19

**39.** Gwnaethom holi'r Gweinidog am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch sut y dylid talu costau'r Bil. Dywedodd wrthym fod cyllid yn elfen allweddol o hyn, a bod hynny’n flaenllaw yn y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Dywedodd:

> *“(…) as this is a piece of UK legislation, we would very much be expecting the UK Government to be providing financial support for its implementation.”*[30]

**40.** Cadarnhaodd fod y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyllid yn cynnwys elfen ychwanegol y ffaith y bydd cytundebau cyflog teg yn berthnasol i ofal cymdeithasol i blant yng Nghymru yn ogystal â gofal cymdeithasol i oedolion. Dywedodd:

> *“I can't give you an answer to that yet in terms of how much money the UK Government will be providing for this, but we fully expect and anticipate that this is a new piece of legislation that is about improving pay, and so we would be expecting the UK Government to fund that.”*[31]

**41.** Gwnaethom holi’r Gweinidog am asesiadau effaith ar gyfer Cymru a’r amcangyfrifon a wnaed ganddi o gostau tebygol y Bil i Lywodraeth Cymru, pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â darparu cyllid ar gyfer y polisi hwn. Dywedodd wrthym:

> *“(…) we haven't done the assessments yet. That will be done. We've looked at the UK Government's impact assessments for the Bill, but we need to do more work on this specifically in Wales to see what the impact of that is. We understand the importance of testing and the potential implications, and we are committed to evaluating that before we lay any regulations. So, this is an ever-moving feast at the moment, but we just haven't got there yet. We're still in the relatively early stages.”*[32]

**42.** O ran y costau uwch tebygol i ddarparwyr o ganlyniad i'r Bil, a'r tebygolrwydd y bydd y costau hyn yn cael mwy o effaith ar fusnesau llai, gwnaethom ofyn i'r

[30] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 380
[31] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 381
[32] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 383

Gweinidog sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi darparwyr a lliniaru rhagor o ansefydlogrwydd yn y farchnad. Dywedodd:

> *"(…) we do accept, of course, that this also does present some challenges to employers. (…) we are carefully going to be considering all of those potential impacts (…)"*[33]

**43.** Dadleuodd, fodd bynnag, y bydd gan y darparwyr hynny, yn enwedig rhai o'r darparwyr bach yn y trydydd sector a'r sector preifat, sedd wrth y bwrdd negodi, ac felly y byddant yn cyfrannu at lunio'r cytundebau y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio eu sicrhau gyda'r gweithlu gofal cymdeithasol.[34]

**44.** Cyfeiriodd hefyd at gostau peidio â gwella hawliau cyflogaeth a chyflogau yn y sector, a dywedodd:

> *"We know, over the years, how difficult it has been to recruit and retain people within the sector. We've done a huge amount of work in this area already, but we still know that it is an enormous challenge to keep people in the sector and to recruit them in the first place, despite a number of initiatives right the way across Wales."*[35]

**45.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog sut yr oedd yn bwriadu sicrhau na fydd pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn gyfan gwbl a gofalwyr di-dâl o dan anfantais o ganlyniad i'r Bil, gan fod asesiad effaith y Bil yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn debygol y bydd costau uwch i ddarparwyr yn arwain at gostau uwch i'r rhai sy'n talu am eu gofal eu hunain. Dywedodd wrthym:

> *"We do understand the importance of how changes are going to impact on different parts of the sector, and that includes self-funders and unpaid carers, of course. So, as part of our ongoing engagement, the formal consultation that we'll be involved in, and all the subsequent analysis that we're going to be undertaking, we're going to have to carefully consider all the specific impacts on all of these groups.*
>
> *We give an absolute undertaking that we will be doing that, and (…) that's why it's so important that we get early clarification from the UK Government about the budget and*

[33] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 389
[34] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 389
[35] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 388

> *about funding for this, so that we can plan effectively and ensure that the proposals are both fair and sustainable going forward."*[36]

**46.** Gwnaethom hefyd ei holi am yr asesiadau a wnaed o'r costau ychwanegol i Gymru sy'n gysylltiedig â chynnwys gwasanaethau plant yn ogystal â gwasanaethau oedolion. Dywedodd wrthym y byddai hyn yn rhan o waith asesu parhaus Llywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I think the important thing to say in relation to that is that children's services generally have higher vacancy rates, and there are better terms and conditions generally in adult social care than there are in children's social care, and that potentially could exacerbate the problem if we don't address the entirety of the children and adult social care.*
>
> *So, that was why it was a priority for us to include children's social care in that, recognising that what that may mean is that in future budgets, we might have to identify additional funding to cover the costs of children's social care."*[37]

### Monitro a gwerthuso

**47.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro a gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn y maes hwn. Cadarnhaodd y byddai gwaith monitro a gwerthuso cadarn yn digwydd, ac y byddai hynny'n rhan o'r trafodaethau ar sefydlu'r cyrff negodi.[38]

## Ein barn ni

**48.** Mae llawer i'w gefnogi o ran yr egwyddorion sy'n sail i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae'r anawsterau o ran recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhai hirsefydlog, a chytunir yn gyffredinol fod angen gwella cyflogau, ynghyd â thelerau ac amodau. Mae consensws hefyd fod angen mwy o gydraddoldeb rhwng swyddi gofal cymdeithasol a swyddi tebyg yn y GIG.

**49.** Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion yn wynebu prinder staff difrifol, yn enwedig ers y pandemig. Mae'r problemau mwyaf dybryd mewn gofal cartref,

[36] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 391
[37] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 393
[38] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2025, paragraff 404

lle mae swyddi gwag yn cyfrif am fwy na 37 y cant o gyfanswm y swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn y sector plant, mae gwaith cymdeithasol plant yn arbennig o heriol, gyda thua 17 y cant o weithwyr cymdeithasol plant yn cael eu cyflogi gan asiantaeth.

**50.** Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cydnabod arwyddocâd y darpariaethau ym Memorandwm Rhif 3 o ran darparu mecanwaith i negodi cyflogau a thelerau ac amodau gwell yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac, yn bwysig, o ran sicrhau bod hawliau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol yn sail i'r Cytundebau Cyflog Teg hynny. O dan y darpariaethau hynny, byddai cytundebau o'r fath yn rhwymo cyflogwyr gofal cymdeithasol, a byddent yn cael eu hadlewyrchu yng nghontractau gweithwyr ac yn gallu cael eu gorfodi yn yr un modd â'r ddeddfwriaeth ar yr isafswm cyflog.

**51.** At hynny, rydym yn croesawu llwyddiant Llywodraeth Cymru wrth eiriol dros gynnwys gwasanaethau plant yn y Bil, a thrwy hynny alluogi cytundebau cyflog teg i fod yn gymwys i ofal cymdeithasol i oedolion a phlant fel ei gilydd yng Nghymru.

**52.** Fodd bynnag, mae gennym nifer o bryderon yr hoffem dynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt, ac rydym wedi eu nodi isod.

### Defnyddio Bil y DU ar gyfer y polisi hwn

**53.** Mae sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yng Nghymru yn faes polisi arwyddocaol. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a bod gwaith yn mynd rhagddo ers blynyddoedd lawer i hybu cyflogau teg yn y gweithlu hwnnw.

**54.** O ystyried yr ymrwymiadau hirsefydlog hyn yn y maes polisi arwyddocaol hwn, mae'n destun siom nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei Bil ei hun, yn hytrach na dibynnu ar Fil y DU. O wneud hynny, byddai wedi gallu cyflwyno manylion ei pholisi, er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd ac er mwyn i'r Senedd ystyried hyn yn llawn ac yn drwyadl.

**55.** Mae defnyddio Bil y DU yn lle hynny yn cyfyngu'n ddifrifol ar y cyfleoedd i randdeiliaid yng Nghymru gymryd rhan yn y broses ddeddfwriaethol, ac i'r Senedd drafod y polisi'n fanwl.

**56.** Er ein bod yn nodi tystiolaeth y Gweinidog nad oes gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer hawliau y gellir eu gorfodi'n

gyfreithiol mewn perthynas â chytundebau cyflog teg, nodwn hefyd fod cyfyngiadau tebyg o ran y cyflog byw gwirioneddol, sy’n gytundeb gwirfoddol sydd ar waith ers nifer o flynyddoedd. Credwn y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi dewis llwybr tebyg er mwyn creu corff negodi gofal cymdeithasol yng Nghymru, a’i sefydlu drwy gyfrwng Bil gan Senedd Cymru. Yna, gallai fod wedi ceisio defnyddio Bil y DU mewn ffordd fwy cyfyngedig i ddarparu hawliau y gellir eu gorfodi’n gyfreithiol. Credwn y byddai'r dull hwn wedi bod yn well.

**57.** At hynny, rydym yn pryderu y bydd unrhyw gamau i gyflawni’r polisi arwyddocaol hwn yn y dyfodol yn digwydd drwy reoliadau. Credwn y byddai’n fwy priodol i’r gwaith o sefydlu corff statudol sy'n gyfrifol am gyflogau a thelerau ac amodau'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru gael ei gyflawni drwy Fil gan Senedd Cymru. Gofynnwn i'r Gweinidog nodi pam y mae o’r farn ei bod yn briodol cyflawni'r polisi hwn drwy reoliadau.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol nodi pam y mae o’r farn ei bod yn briodol sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru drwy reoliadau.

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**58.** Mae gennym bryderon difrifol ynghylch y gofyniad i Lywodraeth Cymru gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol cyn gallu arfer ei phwerau gwneud rheoliadau i sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol i Gymru o dan gymal newydd 36.

**59.** Credwn na ddylai unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Llywodraeth y DU gyfyngu ar arfer pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig. Gan hynny, rydym yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru fod cydsyniad o'r fath yn ddiangen, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi'i ddatganoli i raddau helaeth. Credwn y dylid dileu'r ddarpariaeth hon o'r Bil, ac y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio’r holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**60.** Nodwn fod ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddarbwyllo Llywodraeth y DU i ddileu'r gofyniad hwn ynghylch cydsyniad wedi bod yn aflwyddiannus hyd yma. Hoffem ddeall gwrthwynebiad Llywodraeth y DU yn well, a gofynnwn i’r Gweinidog ysgrifennu atom ynghylch hyn.

**61.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn aros am ymateb gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'i chais am 'eithriad i Atodlen 7B’. Gofynnwn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw ddatblygiadau yn hyn o beth.

**Argymhelliad 2.** Dylid dileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol cyn arfer eu pwerau gwneud rheoliadau o dan gymal newydd 36 o'r Bil, a dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl opsiynau sydd ar gael iddi i sicrhau bod hyn yn digwydd, gan gynnwys parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i'w ddileu.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau o ran ei chais am 'eithriad i Atodlen 7B' sy'n ymwneud â'r gofyniad i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau o dan gymal newydd 36.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu atom i nodi'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth y DU dros gadw'r gofyniad i Weinidogion Cymru gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer eu pwerau gwneud rheoliadau o dan gymal newydd 36.

**62.** Mewn perthynas â'r pŵer Harri'r Wythfed y darperir ar ei gyfer yn adran 151 o'r Bil, nodwn fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi trafod y mater hwn yn ei adroddiad[39] ar Femorandwm Rhif 3 ac wedi gwneud dau argymhelliad i Lywodraeth Cymru, yr ydym yn eu cefnogi.

## Goblygiadau ariannol a chostau

**63.** Mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud gan Lywodraeth Cymru er mwyn paratoi, yn ariannol, ar gyfer creu corff negodi gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau nad oes unrhyw asesiadau o gost gweithredu'r polisi wedi'u cynnal eto, ac ymddengys nad oes syniad clir am lefel y cyllid a fydd ar gael oddi wrth Lywodraeth y DU.

**64.** Ymddengys nad oes llawer wedi'i wneud i asesu effaith y costau uwch tebygol i ddarparwyr o ganlyniad i adran newydd 36 o'r Bil, nac i ystyried y cymorth a allai fod ar gael, yn enwedig i fusnesau llai, i liniaru rhagor o ansefydlogrwydd yn y farchnad. Yn yr un modd, nid yw'r effaith ar bobl sy'n talu am eu gofal eu hunain a gofalwyr di-dâl ychwaith wedi'i hasesu'n fanwl eto.

**65.** Bydd cyllid yn elfen allweddol er mwyn gweithredu adran newydd 36 o'r Bil yn llwyddiannus. Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y bydd yr asesiadau ariannol hyn yn cael eu cynnal cyn i unrhyw reoliadau gael eu gosod, rydym yn pryderu bod cyn lleied o waith paratoi wedi'i wneud, a'i bod yn

[39] *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth*, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Mehefin 2025, paragraffau 30 i 31, gan gynnwys argymhellion 1 a 2

ymddangos y gwyddys cyn lleied am y cyllid i gyd-fynd â hyn oddi wrth Lywodraeth y DU. Nodwn fod trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth y DU, a gofynnwn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynt y trafodaethau hynny.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu atom bob chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynt y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y cyllid a fydd ar gael i weithredu'r darpariaethau yn y Bil a drafodir ym Memorandwm Rhif 3.

## Ymgysylltu

**66.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog fod trefniadau partneriaeth gymdeithasol hirsefydlog yng Nghymru gydag undebau llafur a chynrychiolwyr cyflogwyr. Fodd bynnag, rydym yn bryderus braidd nad oes cynnydd ffurfiol wedi'i wneud o ran sefydlu'r gweithgorau sy'n angenrheidiol er mwyn arfer y pwerau gwneud rheoliadau yn adran newydd 36 o'r Bil, ac nad oes gan Lywodraeth Cymru amserlen ar gyfer hyn. Gofynnwn i'r Gweinidog ysgrifennu atom i nodi'r broses a fydd yn cael ei dilyn i sefydlu'r gweithgorau angenrheidiol, ac amserlen ar gyfer hyn.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu atom o fewn 6 mis i nodi'r prosesau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth greu'r gweithgorau ar gyfer sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol i Gymru, ac amserlen ar gyfer y gwaith hwn.

## Y posibilrwydd y gallai fod gwahaniaethau o ran polisi

**67.** Rydym yn cydnabod bod y trefniadau yn y Bil ar gyfer tri chorff negodi ar wahân yn y DU yn golygu y gallai fod gwahaniaethau rhwng cytundebau'r tair gwlad. Gan hynny, roeddem yn falch o glywed tystiolaeth y Gweinidog fod Cymru yn cael ei chynrychioli ar Weithgor Prydain Fawr, a bod y grŵp yn ystyried y mater hwn yn benodol gyda'r bwriad o osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Gofynnwn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni o bryd i'w gilydd am hynt trafodaethau Gweithgor Prydain Fawr.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am drafodaethau Gweithgor Prydain Fawr ynghylch sefydlu cyrff negodi gofal cymdeithasol yn y tair gwlad, ac unrhyw gytundebau sy'n deillio o'r trafodaethau hynny.

## Casgliad

**68.** Fel Pwyllgor, credwn fod Memorandwm Rhif 3 a'r trefniadau yn y Bil ar gyfer sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol i Gymru yn bell o fod yn foddhaol, ac rydym wedi amlinellu ein pryderon uchod.

**69.** Rydym yn llwyr gefnogi'r egwyddor o gryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, a gwella cyflogau a thelerau ac amodau'r rhai sy'n gweithio yn y sector hanfodol hwn. Mae mwyafrif ohonom yn cefnogi'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn fel ffordd o gyflawni hyn. Mae lleiafrif ohonom, fodd bynnag, o’r farn bod y diffyg parodrwydd a chynllunio ariannol, a'r materion cyfansoddiadol ehangach a nodir uchod, yn golygu na allant gefnogi Memorandwm Rhif 3.

**Casgliad 1.** Nid yw mwyafrif o’r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai’r Senedd gefnogi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 ar y Bil Hawliau Cyflogaeth.